

## Cymru Iachach: Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

### Ymgynghoriad Cyhoeddus

#### Sylwadau ar ran Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

15/9/2019

#### CRYNODEB

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad cyhoeddus ar *Cymru Iachach: Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*. Fel corff sy'n ymgyrchu yn unol â'r dull di-drais ac yn gadarnhaol dros hawliau i bobl Cymru ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd o'u bywyd, rydym yn croesawu'r strategaeth arfaethedig ac yn rhagweld cyfle euraidd iddi fynd i'r afael â chynllunio gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol mewn modd strategol, ar sail anghenion iaith Gymraeg y boblogaeth.

Yn unol â gwerthoedd craidd GIG Cymru, mae *Cymru Iachach (LLC, 2018)* yn gosod 'ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth' (tud 4), gan flaenoriaethu cynllunio ar gyfer darparu 'gwasanaethau iechyd a gofal sydd wedi'u teilwra i anghenion a dewisiadau'r unigolyn, gan gynnwys yn yr iaith a ffeirir...' (tud 17). Mae hyn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r *Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2018)* sy'n cydnabod 'pwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal' gan argymhell 'y dylid ystyried hyn wrth gynllunio'r gweithlu' (tud 21).

Am hynny, rydym yn croesawu uchelgais y strategaeth i ddatblygu gweithlu a fydd yn 'diwallu anghenion pobl Cymru' ac yn 'adlewyrchu iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol y boblogaeth' (tud 5). Serch hynny, rydym yn codi **pryderon** ynglŷn â sawl agwedd ar y strategaeth, fel a ganlyn:

- Comisiynwyd corff o'r tu allan i Gymru i lunio'r strategaeth, gan anwybyddu arwyddocâd a phwysigrwydd y Gymraeg wrth gynllunio'r gweithlu.
- Anwybyddir y cyfrifoldebau sydd gan AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru i ystyried y Gymraeg wrth gomisiynu a datblygu gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl Cymru.
- Anwybyddir y cyd-destun cyfreithiol, polisi ac ymchwil yng Nghymru o ran arwyddocâd a phwysigrwydd y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol.
- Anwybyddir yr angen i ystyried y Gymraeg wrth gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn unol â *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.
- Ceir diffyg cydbwysedd rhwng yr heriau digidol sy'n wynebu'r gweithlu a heriau'r iaith Gymraeg.

Ar sail ein hadborth manwl, rydym yn cyflwyno'r **argymhellion** a ganlyn:

- Yn unol â chyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru, mae angen i'r strategaeth ddatgan yn glir y modd y gellir cynllunio a datblygu'r gweithlu er mwyn gwella ansawdd a

hygyrchedd darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol trwy'r Gymraeg ar gyfer trigolion Cymru.

- Er mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am osod y cyfeiriad strategol, AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru sydd â chyfrifoldeb penodol dros waith rheoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol, cynllunio a datblygu'r gweithlu, a gwella gwasanaethau gofal yng Nghymru. Am hynny, mae disgwyl i'r strategaeth adlewyrchu arweiniad cryf ar y Gymraeg ym mhob agwedd o'r gwaith, gan dynnu sylw penodol at ofynion *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.
- Mae angen sefydlu sylfaen data dibynadwy ynghylch gallu'r gweithlu yn y Gymraeg a'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg sy'n cyrchu'r gwasanaethau hynny.
- Yn seiliedig ar hyn, mae angen adnabod y bylchau er mwyn targedu ymgyrchoedd recriwtio ar gyfer denu siaradwyr Cymraeg i wasanaethu'r gweithlu cyfredol.
- Yn yr un modd, wrth gomisiynu llefydd ar raglenni cofrestru proffesiynol, mae angen cyflwyno cwotâu / targedau ar gyfer recriwtio nifer digonol o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ar gyfer gweithlu'r dyfodol.
- Mae angen cydweithio pellach rhwng y comisiynwyr a'r darparwyr addysg broffesiynol (gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol) i sicrhau fod rhaglenni proffesiynol ar gael trwy'r Gymraeg ar draws y disgyblaethau er mwyn sefydlu'r sgiliau iaith angenrheidiol ar gyfer ymarfer mewn sefyllfa ddwyieithog a rhoi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith.
- Yn unol â chyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru, mae angen blaenoriaethu sgiliau ieithyddol y gweithlu ochr yn ochr â'r sgiliau digidol a darparu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.
- Ac ystyried y pwyslais cynyddol ar ofal integredig, mae angen cynllunio modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol ar sail anghenion iaith Gymraeg y boblogaeth.
- Disgwylir y bydd angen thema benodol ar y Gymraeg o fewn y strategaeth er mwyn gweithredu'r argymhellion hyn.
- Disgwylir, yn ogystal, y bydd angen ymgorffori elfennau o'r argymhellion i mewn i themâu eraill, fel y bo'n briodol.

## **Thema 1: Gwerthfawrogi ein gweithlu**

### **1. Ydy'r thema hon yn cynorthwyo i drawsnewid y gweithlu er mwyn darparu Cymru lachach?**

**Nac ydy.** Mae'n anwybyddu pwysigrwydd y Gymraeg a'r 'cynnig rhagweithiol' mewn gofal gan ddiystyru hyn wrth gynllunio'r gweithlu a gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg.

### **2. Os nad yw – beth sydd ar goll?**

Yn unol â gwerthoedd craidd GIG Cymru, mae *Cymru lachach (LLC, 2018)* yn gosod 'ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth' (tud 4), gan flaenoriaethu cynllunio ar gyfer darparu 'gwasanaethau iechyd a gofal sydd wedi'u teilwra i anghenion a dewisiadau'r unigolyn, gan gynnwys yn yr iaith a ffefrir...' (tud 17). Mae hyn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r *Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2018)* sy'n cydnabod 'pwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal' gan argymhell 'y dylid ystyried hyn wrth gynllunio'r gweithlu' (tud 21).

Yn sgil yr egwyddorion hyn, gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn ei Fframwaith Strategol *Mwy na geiriau* (LLC, 2012, 2016) yw y bydd siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal sy'n bodloni eu hanghenion fel rhan naturiol o'u gofal, gyda phwyslais cynyddol ar weithredu 'cynnig rhagweithiol' o wasanaethau Cymraeg. Golyga hyn fod angen newid diwylliant ymhlith sefydliadau wrth symud y cyfrifoldeb am sicrhau gwasanaethau addas oddi ar ysgwyddau'r defnyddiwr i'r darparwr. Wrth gyflwyno *Safonau'r Gymraeg* i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, daw'r amcanion hyn yn ofynion statudol, gyda phwyslais ar baratoi gweithlu yng Nghymru sy'n ffit i bwrpas ar gyfer y cyd-destun dwyieithog, ac sydd â'r sgiliau iaith ac ymwybyddiaeth iaith briodol. Mae'n anochel, felly, bod *Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymru* yn rhoi sylw penodol i'r gofynion ieithyddol hyn, yn unol â chyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru:

'Er mwyn i'r gweithlu iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol allu cyflawni'r Cynnig Rhagweithiol, mae'n hanfodol eu bod yn adlewyrchu lefelau digonol o sgiliau Cymraeg a sensitifrwydd. Bydd buddsoddi yng ngweithlu'r dyfodol drwy gynllunio strategol ... yn sicrhau'r capasiti i ddarparu'r gwasanaethau lle mae fwyaf eu hangen.' (LLC 2016, 3.21).

Caiff hyn ei atgyfnerthu yn yr *Asesiad Effaith o'r Gymraeg o fewn Cymru Iachach* (LLC, 2018) lle nodir:

'Wrth ddatblygu'r strategaeth hon (Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol), bydd angen i AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru ystyried yn fanwl sut y bydd darparwyr gwasanaethau'n gallu cyrraedd Safonau'r Gymraeg, ac uchelgeisiau Cymraeg 2050 trwy wneud y defnydd gorau o gyflogeion Cymraeg yn eu gweithlu presennol, darparu cyfleoedd i'r holl staff ddysgu Cymraeg / defnyddio'r Gymraeg, a thrwy recriwtio rhagor o ymarferwyr â sgiliau iaith Gymraeg yn y dyfodol.' (tud 4).

Dengys fod buddsoddiad o'r fath yn cael effaith bositif ar recriwtio a bodlonrwydd staff, fel dywed Société Santé ên français (SSF, 2015) sy'n gyfrifol am hyrwyddo gwasanaethau drwy'r Ffrangeg ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghanaada. 'Generally, bilingual staff seek work settings wherein they can use French in a climate where they feel valued and authorized to do so.' (tud 33).

Wrth adrodd ar sefyllfa'r Gymraeg yn y GIG ugain mlynedd yn ôl, honnodd Misell (2000) y 'gwastreffir sgiliau cyfathrebu staff dwyieithog ... am nad oes cydnabyddiaeth briodol i ddwyieithrwydd fel sgil broffesiynol, werthfawr' (tud 70) er bod 'cleifion Cymraeg yn gwerthfawrogi yn fawr iawn unrhyw ymdrechion gan staff i gyfathrebu â nhw yn eu hiaith gyntaf' (tud 58). Ymhellach, hawliodd 'nad yw sefydliadau addysgol/hyfforddi yn ystyried sgiliau iaith ac anghenion ieithyddol y gweithle dwyieithog wrth ddosrannu llefydd ar gyrsiau. Mae hyn yn rhannol oherwydd nad yw darparwyr gwasanaethau yn hysbysu'r sefydliadau hyn am eu hanghenion er gwaethaf ymrwymadau mewn cynlluniau iaith i wneud hynny.' (tud 69).

Er gwaethaf datblygiadau deddfwriaethol a pholisi diweddar yng Nghymru, dengys fod diffyg cydnabyddiaeth o'r fath yn parhau hyd heddiw (Roberts et al, 2004; Iaith, 2012; LLC, 2012; Comisiynydd y Gymraeg, 2014). Ymhellach, prin iawn yw'r ymdrechion i gynllunio gweithlu'r

GIG mewn modd strategol ar sail anghenion ieithyddol y boblogaeth (LLC, 2016; Comisiynydd y Gymraeg, 2019). Mae'r *Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol* yn cynnig cyfle unigryw ac euraidd i wyrddroi sefyllfa o'r fath, yn unol â chyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru.

**I gloi, ac ystyried uchelgais y strategaeth i ddatblygu gweithlu a fydd yn 'diwallu anghenion pobl Cymru' ac 'adlewyrchu iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol y boblogaeth', mae angen creu gweithlu sy'n medru'r Gymraeg ac sy'n ystyried bod eu sgiliau Cymraeg yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi, a bod cyfle ar gyfer eu datblygu ymhellach.**

### **3. Ydy'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg a'r camau gweithredu posibl yn ddigonol?**

**Nac ydynt.** Maent yn diystyru'r angen i greu gweithlu sy'n medru'r Gymraeg a'r angen i werthfawrogi'r sgiliau hynny.

### **4. Os nad ydyn nhw beth arall hoffech chi ei weld?**

Ar sail yr angen i greu gweithlu sy'n medru'r Gymraeg ac sy'n ystyried bod eu sgiliau Cymraeg yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi, a bod cyfle ar gyfer eu datblygu ymhellach, rydym yn gryf o'r farn y dylid ychwanegu'r pwyntiau a ganlyn i weledigaeth a blaenoriaethau'r thema hon:

#### **Gweledigaeth:**

- Y gweithlu wedi'i gynllunio mewn modd strategol ar sail anghenion iaith Gymraeg y boblogaeth
- Sgiliau Cymraeg yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi fel sgiliau proffesiynol
- Gweithlu dwyieithog sy'n gymwys i roi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith
- Staff yn gwisgo bathodyn / lanyard siaradwr / dysgwr Cymraeg gyda balchder

#### **Blaenoriaethau**

- Gosod cwotâu / targedau ar gyfer recriwtio nifer digonol o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ar gyfer gweithlu'r dyfodol
- Cydnabod yn ffurfiol / ariannol sgiliau Cymraeg y gweithlu
- Lledaenu adnoddau iaith i gefnogi defnydd y Gymraeg yn y sector
- Cynnig cyfleoedd ardderchog ar gyfer dysgu Cymraeg
- Cydnabod a gwobrwyo dysgwyr y Gymraeg

### **Thema 2: Gweithio yn ddi-dor**

### **5. Ydy'r thema hon yn cynorthwyo i drawsnewid y gweithlu er mwyn darparu Cymru lachach?**

**Nac ydy.** Mae'n anwybyddu pwysigrwydd y Gymraeg a'r 'cynnig rhagweithiol' wrth ddarparu gofal di-dor sy'n gosod yr unigolyn wrth wraidd y gofal hwnnw.

### **6. Os nad yw – beth sydd ar goll?**

Yn unol â gwerthoedd craidd GIG Cymru, mae *Cymru lachach (LLC, 2018)* yn gosod 'ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth' (tud 4), gan flaenoriaethu cynllunio ar gyfer darparu

'gwasanaethau iechyd a gofal sydd wedi'u teilwra i anghenion a dewisiadau'r unigolyn, gan gynnwys yn yr iaith a ffeifrir...' (tud 17). Roedd yr *Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru* (2018) eisoes wedi cydnabod 'pwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal' ac wedi argymhell 'y dylid ystyried hyn wrth gynllunio'r gweithlu' (tud 21). Caiff hyn ei atgyfnerthu gan dystiolaeth ymchwil diweddar (Misell, 2000; Madoc-Jones, 2004; Prys, 2010; Iaith, 2012; Owen a Morris, 2012; Comisiynydd y Gymraeg, 2014; Alzheimer's Society Cymru / Comisiynydd y Gymraeg, 2018; Hughes, 2018); deddfwriaeth (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) a chyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru (LLC, 2012, 2016).

Gweledigaeth *Cymru Iachach* (LLC, 20180) yw y bydd 'modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol di-dor yn integreiddio gwasanaethau ar lefel leol a rhanbarthol .... Dylai popeth gael ei gyflwyno fel pecyn unigol o gymorth, gofal neu driniaeth, wedi'i deilwra i anghenion a dewisiadau'r person hwnnw, hyd yn oed os yw'n cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan nifer o ddarparwyr gwahanol' (tud 10). Ac ystyried pwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal, rhagwelir 'y bydd angen i ni weld modelau yn ymddangos sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan adeiladu ar safonau Mwy na Geiriau fel bod modd i bobl gyfathrebu yn eu dewis iaith' (tud 22). Golyga hyn fod angen 'pwyslais ar ehangu sgiliau cyffredinol a galluogi staff i weithio ar frig eu cyfres o sgiliau' (tud 31), gan gynnwys eu sgiliau Cymraeg.

Mae'n anochel, felly, y bydd rhaid cynllunio'r modelau newydd hyn ar sail anghenion ieithyddol y boblogaeth, gan sicrhau cyflenwad digonol o siaradwyr Cymraeg o fewn timau amlddisgyblaethol i roi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith yn ddi-dor ar draws y llwybrau gofal. Caiff hyn ei atgyfnerthu yn yr *Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru* (2018) sy'n datgan:

'Rhaid i AaGIC weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddarparu sgiliau newydd a llwybrau gyrfa integredig fwy penodol ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, ar raddfa sydd wedi'i halinio gyda'r modelau gofal newydd, gyda ffocws ar hyfforddiant o fewn y modelau gofal newydd a sylw dyledus i ofynion y Gymraeg' (tud 22).

**I gloi, ac ystyried uchelgais y *Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol* i ddatblygu gweithlu a fydd yn 'diwallu anghenion pobl Cymru' ac 'adlewyrchu iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol y boblogaeth', mae angen gweithlu sy'n sicrhau dilyniant iaith Gymraeg i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth ar hyd y llwybr gofal, fel y bydd modd rhoi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith yn ddi-dor.**

## **7. Ydy'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg a'r camau gweithredu posibl yn ddigonol?**

**Nac ydynt.** Maent yn diystyru'r angen i sicrhau dilyniant iaith Gymraeg i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth ar hyd y llwybr gofal fel y bydd modd rhoi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith yn ddi-dor.

## **8. Os nad ydyn nhw beth arall hoffech chi ei weld?**

Ar sail yr angen i sicrhau dilyniant iaith Gymraeg i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth ar hyd y llwybr gofal fel y bydd modd rhoi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith yn ddi-dor, rydym yn gryf

o'r farn y dylid ychwanegu'r pwyntiau a ganlyn i weledigaeth a blaenoriaethau'r thema hon:

### **Gweledigaeth:**

- Modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u cynllunio ar sail anghenion iaith Gymraeg y boblogaeth.
- Timau amlddisgyblaethol sy'n medru'r Gymraeg ac sydd wedi eu cynllunio mewn modd strategol ar sail gofynion iaith Gymraeg defnyddwyr gwasanaeth y rhanbarth.
- Dewis / angen iaith Gymraeg defnyddwyr gwasanaeth wedi'u cofnodi a'u trosglwyddo ar hyd y llwybr gofal ac ar draws y timau amlddisgyblaethol.
- Gweithlu dwyieithog sy'n manteisio ar systemau gwybodaeth cynhwysfawr ar gyfer rhoi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith yn ddi-dor.

### **Blaenoriaethau**

- Archwilio anghenion iaith Gymraeg defnyddwyr gwasanaeth y rhanbarth a chynllunio gwasanaethau Cymraeg ar eu cyfer.
- Gosod trefniadau ar gyfer cofnodi a throsglwyddo dewis / angen iaith Gymraeg defnyddwyr gwasanaeth.
- Archwilio a dynodi sgiliau iaith Gymraeg y timau amlddisgyblaethol presennol / arfaethedig.
- Adnabod y bylchau o ran sgiliau iaith Gymraeg ar draws y timau amlddisgyblaethol.
- Targedu swyddi gwag / newydd a gosod y Gymraeg yn hanfodol / dymunol fel bo'n briodol.
- Targedu hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer y timau amlddisgyblaethol.
- Wrth gomisiynu llefydd ar raglenni addysg a hyfforddiant proffesiynol, cyflwyno cwtotâu / targedau ar gyfer recriwtio nifer digonol o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg mewn meysydd penodol ar draws y rhanbarthau er mwyn adeiladu gweithlu'r dyfodol.
- Darparu addysg amlddisgyblaethol trwy'r Gymraeg / dwyieithog er mwyn paratoi ymarferwyr ar gyfer y sefyllfa ddwyieithog.

### **Thema 3: Digidol**

#### **9. Ydy'r thema hon yn cynorthwyo i drawsnewid y gweithlu er mwyn darparu Cymru Iachach**

**Nac ydy.** Mae'n anwybyddu'r modd y gall technolegau newydd hyrwyddo defnydd y Gymraeg ymysg y gweithlu a hwyluso gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

#### **10. Os nad yw – beth sydd ar goll?**

Yn unol â gwerthoedd craidd GIG Cymru, mae *Cymru Iachach (LLC, 2018)* yn gosod 'ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth' (tud 4), gan flaenoriaethu cynllunio ar gyfer darparu 'gwasanaethau iechyd a gofal sydd wedi'u teilwra i anghenion a dewisiadau'r unigolyn, gan gynnwys yn yr iaith a ffefrir...' (tud 17). Roedd yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2018) eisoes wedi cydnabod 'pwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal' ac wedi argymhell 'y dylid ystyried hyn wrth gynllunio'r gweithlu' (tud 21).

Mae gallued digidol yn cynnig cyfleoedd sylweddol i wella'r modd y darparir gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig trwy'r Gymraeg ac yn ddwyieithog. Am hynny, mae'n anochel fod y gweithlu yn ymwybodol o'r datblygiadau hyn ac yn gymwys i ddefnyddio'r dechnoleg ddigidol ddiweddaraf, beth bynnag fo'u sgiliau iaith. Rhagwelir y bydd 'technolegau a systemau digidol newydd yn rhan bwysig o'n trefn system gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol' (LLC, 2018, tud 12). Ymhellach, ac ystyried y cyd-destun Cymraeg, dywed *Cynllun Gweithredu Technoleg Gymraeg* Llywodraeth Cymru (2018) 'os gall technoleg hwyluso cyfleoedd i weithio ac i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg, mae angen datblygu'r cyfleoedd hynny' (tud 2) yn unol ag athroniaeth y 'cynnig rhagweithiol'. 'Rydym am gyrraedd sefyllfa lle bydd y Gymraeg yn cael ei chynnig yn rhagweithiol, a lle bydd yn bosibl i sefydliadau, teuluoedd ac unigolion ei defnyddio mewn nifer cynyddol o gyd-destunau digidol - yn rhai uniaith ac amlieithog - heb orfod gofyn amdani' (tud 4).

Yn ogystal â hyrwyddo gwasanaethau trwy'r Gymraeg / dwyieithog ar draws y sector, mae technoleg ddigidol wedi cyfrannu'n sylweddol at addysg ddwyieithog dros y blynyddoedd diweddar, ac nid oes amheuaeth y bydd y datblygiadau hynny'n parhau. Wrth hyrwyddo'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg broffesiynol a chynnig dysgu mwy hyblyg, dywed y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (2017) fod 'angen i'r Gymraeg fod ar flaen y gad o safbwynt y dechnoleg a sicrhau bod y dulliau dysgu mwyaf cyfoes o ran cyfoethogi dysgu drwy dechnoleg yn cael eu mabwysiadu' (tud 13).

Mae'n anochel, felly, fod angen rhoi'r sylw blaenaf i'r Gymraeg wrth gyflwyno'r thema hon, gan ddangos sut y gall datblygiadau'r oes ddigidol newydd hyrwyddo addysg broffesiynol a darpariaeth gwasanaeth sydd wedi'u teilwra'n llawn ar gyfer y cyd-destun dwyieithog.

**I gloi, ac ystyried uchelgais y *Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol* i ddatblygu gweithlu a fydd yn 'diwallu anghenion pobl Cymru' ac 'adlewyrchu iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol y boblogaeth', mae angen gweithlu sy'n gymwys i ddefnyddio technoleg ddigidol er mwyn hyrwyddo dysgu a darpariaeth gwasanaethau cyfrwng Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol.**

#### **11. Ydy'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg a'r camau gweithredu posibl yn ddigonol?**

**Nac ydynt.** Maent yn diystyru'r modd y gall datblygiadau'r oes ddigidol newydd hyrwyddo addysg broffesiynol a darpariaeth gwasanaeth trwy'r Gymraeg sydd wedi'u teilwra'n llawn ar gyfer y cyd-destun dwyieithog.

#### **12. Os nad ydyn nhw beth arall hoffech chi ei weld?**

Ar sail yr angen am weithlu sy'n gymwys i ddefnyddio technoleg ddigidol er mwyn hyrwyddo dysgu a darpariaeth gwasanaethau cyfrwng Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol, rydym yn gryf o'r farn y dylid ychwanegu'r pwyntiau a ganlyn i weledigaeth a blaenoriaethau'r thema hon:

### **Gweledigaeth:**

- Gweithlu sy'n ymwybodol o'r dechnoleg ddigidol ddiweddaraf trwy'r Gymraeg / dwyieithog ac sy'n gymwys i'w defnyddio er mwyn rhoi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith.
- Cyfleoedd eang i ddysgu trwy'r Gymraeg trwy ddefnydd technoleg ddigidol mewn addysg broffesiynol

### **Blaenoriaethau:**

- Galluogi mynediad y gweithlu a'u dealltwriaeth am y dechnoleg ddiweddaraf sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithlu, megis, e.e. geiriaduron ar-lein, meddalwedd gwirio sillafu.
- Hybu datblygiad technoleg digidol sy'n hwyluso defnydd y Gymraeg i gleifion / cleientiaid, e.e. atgoffwyr awtomatig i gymryd tabledi, synwryddion symud a lleoliad, peiriannau hunanwasanaeth sy'n gweithredu trwy'r Gymraeg.
- Gweithio gyda darparwyr addysg er mwyn manteisio ar ddulliau dysgu sy'n gwneud defnydd o dechnoleg ddigidol, megis, e.e. dysgu o bell ac ar-lein, er mwyn hyrwyddo dysgu trwy'r Gymraeg ar draws Cymru.

### **Thema 4: Denu a recriwtio**

#### **13. Ydy'r thema hon yn cynorthwyo i drawsnewid y gweithlu er mwyn darparu Cymru Iachach?**

**Nac ydy.** Mae'n anwybyddu pwysigrwydd y Gymraeg a'r 'cynnig rhagweithiol' mewn gofal gan ddiystyru hyn wrth gynllunio gweithlu sy'n ffit i bwrpas ar gyfer y cyd-destun dwyieithog.

#### **14. Os nad yw – beth sydd ar goll?**

Yn unol â gwerthoedd craidd GIG Cymru, mae *Cymru Iachach (LLC, 2018)* yn gosod 'ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth' (tud 4), gan flaenoriaethu cynllunio ar gyfer darparu 'gwasanaethau iechyd a gofal sydd wedi'u teilwra i anghenion a dewisiadau'r unigolyn, gan gynnwys yn yr iaith a ffeirir...' (tud 17). Roedd yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2018) eisoes wedi cydnabod 'pwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal' ac wedi argymhell 'y dylid ystyried hyn wrth gynllunio'r gweithlu' (tud 21).

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn ei Fframwaith Strategol *Mwy na Geiriau (LLC, 2012, 2016)* yw y bydd siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal sy'n bodloni eu hanghenion fel rhan naturiol o'u gofal, gyda phwyslais cynyddol ar weithredu 'cynnig rhagweithiol' o wasanaethau Cymraeg. Golyga hyn fod angen newid diwylliant ymhlith sefydliadau wrth symud y cyfrifoldeb am sicrhau gwasanaethau addas oddi ar ysgwyddau'r defnyddiwr i'r darparwr. Wrth gyflwyno Safonau'r Gymraeg i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, daw'r amcanion hyn yn ofynion statudol, gyda phwyslais ar baratoi gweithlu yng Nghymru sy'n ffit i bwrpas ar gyfer y cyd-destun dwyieithog, ac sydd â'r sgiliau iaith ac ymwybyddiaeth iaith briodol. Mae'n anochel, felly, bod *Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymru* yn rhoi sylw penodol i'r gofynion ieithyddol hyn, yn unol â chyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru:



*'Er mwyn i'r gweithlu iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol allu cyflawni'r Cynnig Rhagweithiol, mae'n hanfodol eu bod yn adlewyrchu lefelau digonol o sgiliau Cymraeg a sensitifrwydd. Bydd buddsoddi yng ngweithlu'r dyfodol drwy gynllunio strategol ... yn sicrhau'r capasiti i ddarparu'r gwasanaethau lle mae fwyaf eu hangen.'* (LLC 2016, 3.21)

Ceir enghraifft o gynllunio strategol o'r fath yng Nghanaada lle bu ymdrech sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gyflwyno 'cynnig rhagweithiol' o wasanaethau drwy'r Ffrangeg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn taleithiau fel New Brunswick, Ontario a Manitoba. Datblygwyd fframwaith defnyddiol, ar sail tystiolaeth, gan Société Santé en français (SSF, 2015) ar gyfer cynllunio a datblygu gweithlu dwyieithog. <[https://savoir-sante.ca/en/content\\_page/download/248/348/21?method=view](https://savoir-sante.ca/en/content_page/download/248/348/21?method=view)> Mae'n argymhell 6 cam penodol sy'n cynnwys:

- Deall anghenion y gymuned ddwyieithog
- Cynllunio gwasanaethau ar eu cyfer
- Addasu arferion recriwtio ac asesu cymhwysedd iaith yn y ddwy iaith
- Sefydlu arferion ar gyfer croesawu ac integreiddio staff
- Hyfforddi a darparu adnoddau sy'n cynyddu eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd iaith mewn gofal
- Gwerthuso llwyth gwaith a bodlonrwydd staff a chleifion

Mae pob un o'r camau hyn yn haeddu'r sylw pennaf wrth gynllunio gweithlu ar gyfer y sector iechyd a gofal yng nghyd-destun dwyieithog Cymru. Yn unol â gofynion y safonau iaith ac amcanion *Mwy na geiriau* (LLC, 2012, 2016), byddai hyn yn golygu:

- Archwilio anghenion iaith Gymraeg y boblogaeth a chynllunio gwasanaethau ar eu cyfer.
- Archwilio a dynodi sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu presennol.
- Adnabod y bylchau o ran sgiliau iaith Gymraeg ar draws y disgyblaethau / rhanbarthau.
- Targeddu swyddi gwag / newydd a gosod y Gymraeg yn hanfodol / dymunol fel bo'n briodol.
- Targeddu hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer y gweithlu presennol.
- Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith hanfodol ar draws y gweithlu cyfan.
- Wrth gomisiynu llefydd ar raglenni addysg broffesiynol, cyflwyno cwotâu / targedau ar gyfer recriwtio nifer digonol o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ar gyfer gweithlu'r dyfodol.
- Darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn paratoi ymarferwyr ar gyfer y sefyllfa ddwyieithog.

Mae denu a recriwtio staff yn gam allweddol o fewn cylch cynllunio gweithlu'r dyfodol. Ac ystyried gweledigaeth Llywodraeth Cymru, rhaid cynnal hyn ar sail anghenion iaith Gymraeg y boblogaeth er mwyn anelu yn y pendraw at sefydlu gweithlu dwyieithog sy'n gymwys i roi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith. Dengys fod prinder staff sy'n siarad Cymraeg mewn rhai disgyblaethau a rhanbarthau. Mae'r strategaeth hon yn cynnig cyfle i ddatblygu cynlluniau tymor hir a fydd yn gwyrddroi'r sefyllfa bresennol ac adeiladu capasiti ar gyfer y dyfodol.

Wrth ddenu staff, rhaid anelu at godi ymwybyddiaeth ar draws y sector a thu hwnt am bwysigrwydd iaith fel rhan annatod o'r gofal er mwyn sicrhau diogelwch ac ansawdd gwasanaeth. Mae angen darbwyllo pob sefydliad a phob aelod staff nad rhywbeth ychwanegol yw diwallu anghenion iaith defnyddwyr gwasanaeth; mae'n hollol sylfaenol ar gyfer cynnal gofal o safon, gan atgyfnerthu egwyddorion craidd datblygiadau deddfwriaethol a pholisi diweddar yng Nghymru, megis:

- Gofal sy'n gosod y cleient yn ganolog
- Cynnal parch, urddas a lles unigolion
- Gwrando ar lais y defnyddiwr gwasanaeth
- Cydweithio gyda defnyddwyr i sefydlu tystiolaeth ar gyfer arfer da a pholisi
- Gofal darbodus

Mae'n bwysig felly marchnata negeseuon positif ynglŷn â manteision sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer y gweithlu yng Nghymru, ar bob lefel, gan ledaenu'r neges yn eang trwy'r ysgolion, colegau, prifysgolion, sefydliadau cysylltiol a'r cyhoedd yn gyffredinol. Ceir enghreifftiau o ymgyrchoedd llwyddiannus o'r fath gan Y Coleg Gymraeg Cenedlaethol, e.e. Cynllun Llysgenhadon a Doctoriaid Yfory, lle caiff darpar fyfyrwyr gael gwybod hefyd am ysgoloriaethau'r Coleg ar gyfer rheini sy'n astudio trwy'r Gymraeg.

Ac ystyried bod modd dysgu iaith, dylid hefyd dwyn sylw pobl at y llu o gyfleoedd sydd bellach ar gael i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg i wahanol raddau, a'r gwersi sydd ar gael o fewn oriau gwaith. Dylid cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Gymraeg Cenedlaethol a manteisio ar ei rhaglenni, gan gynnwys ei chynllun Gymraeg Gwaith. Mae nifer o staff y GIG ar hyd a lled Cymru wedi llwyddo i ddysgu Gymraeg a'i ddefnyddio'n llwyddiannus gyda chleifion o ddydd i ddydd. Gall hanesion o'r fath fod yn hwb i unrhyw ymgyrch farchnata. Yn yr un modd, mae angen argyhoeddi'r rheini nad ydynt yn siarad Gymraeg bod hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ar gael lle mae modd iddynt ddysgu am eu cyfraniad allweddol hwythau hefyd tuag at roi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith.

Wrth recriwtio staff ar gyfer y gweithlu, er mwyn sicrhau cyflenwad digonol sy'n siarad Gymraeg, dylid mabwysiadu fframwaith sgiliau iaith, e.e. fel yr amlinellir ym mhecyn adnoddau Cyngor Gofal (2014) *Sgiliau Iaith Gymraeg eich Gweithlu: eu defnyddio'n effeithiol*. Mae'r adnoddau yn galluogi rheolwyr i ganfod pa sgiliau iaith Gymraeg sydd ganddynt eisoes yn y gweithlu a sut i recriwtio siaradwyr Gymraeg i swyddi / weithleoedd penodol. Mae'r pecyn yn cynnwys 4 adran fel a ganlyn:

- Trosolwg polisi a deddfwriaeth sy'n ymwneud â defnydd y Gymraeg yn y sector iechyd a gofal.
- Canllawiau ar gyfer datblygu Cynllun Sgiliau Iaith ar gyfer y gwasanaeth
- Canllawiau ar gyfer asesu a chofnodi sgiliau iaith Gymraeg y staff
- Canllawiau ynghylch materion recriwtio

Ceir canllawiau mwy manwl ar gyfer ystyried y Gymraeg wrth recriwtio gan Gomisiynydd y Gymraeg (2016).

[http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20160308%20%20GC%20C%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20\(T\).pdf](http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20160308%20%20GC%20C%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20(T).pdf).

Yn fyr, wrth ddenu a recriwtio pobl i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, mae'n rhaid gosod negeseuon clir ynghylch gweithio mewn cyd-destun dwyieithog, e.e.

- Yng Nghymru, mae gan gleifion a defnyddwyr gwasanaeth hawl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyrchu gwasanaethau.
- Mae darparu gwasanaethau trwy'r Gymraeg yn allweddol ar gyfer sicrhau diogelwch ac ansawdd y gofal.
- Gall pawb gyfrannu at roi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith, beth bynnag fo'u sgiliau iaith.
- Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ar gael a chyfleoedd i ddysgu Cymraeg a'i defnyddio yn y gweithle.
- Mae adnoddau iaith ar gael i gefnogi defnydd y Gymraeg ar draws y sector.

**I gloi, ac ystyried uchelgais y *Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol* i ddatblygu gweithlu a fydd yn 'diwallu anghenion pobl Cymru' ac 'adlewyrchu iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol y boblogaeth', mae angen denu a recriwtio gweithlu sy'n medru'r Gymraeg ac sy'n gymwys i roi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith.**

#### **15. Ydy'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg a'r camau gweithredu posibl yn ddigonol?**

**Nac ydynt.** Maent yn anwybyddu pwysigrwydd y Gymraeg a'r 'cynnig rhagweithiol' mewn gofal gan ddiystyru hyn wrth gynllunio gweithlu sy'n ffit i bwrpas ar gyfer y cyd-destun dwyieithog.

#### **16. Os nad ydyn nhw beth arall hoffech chi ei weld?**

Ar sail yr angen i ddenu a recriwtio gweithlu sy'n medru'r Gymraeg ac sy'n gymwys i roi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith, rydym yn gryf o'r farn y dylid ychwanegu'r pwyntiau a ganlyn i weledigaeth a blaenoriaethau'r thema hon:

##### **Gweledigaeth:**

- Prosesau denu a recriwtio gweithlu sy'n medru'r Gymraeg ac a gynllunnir ar sail gofynion iaith Gymraeg y boblogaeth.
- Recriwtio gweithlu o Gymru sy'n medru'r Gymraeg yn cynyddu gan leihau'r angen i recriwtio o dramor.

##### **Blaenoriaethau:**

- Marchnata negeseuon am fanteision sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithlu a mynediad agored i ddysgu Cymraeg.
- Sefydlu ymgyrchoedd recriwtio penodol a dargedir ar gyfer proffesiynau / rhanbarthau lle mae prinder o siaradwyr Cymraeg.

#### **Thema 5: Addysg a dysgu**

#### **17. Ydy'r thema hon yn cynorthwyo i drawsnewid y gweithlu er mwyn darparu Cymru Iachach?**

**Nac ydy.** Mae'n anwybyddu pwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal ac yn diystyru hyn wrth gynllunio gweithlu sy'n ffit i bwrpas ar gyfer y cyd-destun dwyieithog.

## 18. Os nad yw – beth sydd ar goll?

Yn unol â gwerthoedd craidd GIG Cymru, mae *Cymru Iachach (LLC, 2018)* yn gosod 'ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth' (tud 4), gan flaenoriaethu cynllunio ar gyfer darparu 'gwasanaethau iechyd a gofal sydd wedi'u teilwra i anghenion a dewisiadau'r unigolyn, gan gynnwys yn yr iaith a ffeirir...' (tud 17). Roedd yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2018) eisoes wedi cydnabod 'pwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal' ac wedi argymhell 'y dylid ystyried hyn wrth gynllunio'r gweithlu' (tud 21).

Ac ystyried yr angen am weithlu sy'n ffit i bwrpas ar gyfer y cyd-destun dwyieithog yng Nghymru, mae'n holl bwysig bod nifer digonol o siaradwyr Cymraeg yn cael eu recriwtio a'u hyfforddi ar gyfer y disgyblaethau iechyd a gofal a bod y rhaglenni ar gael trwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog. Fel yr esbonnir yn *Mwy na Geiriau (LLC, 2016)*:

'Er mwyn i'r gweithlu iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol allu cyflawni'r Cynnig Rhagweithiol, mae'n hanfodol eu bod yn adlewyrchu lefelau digonol o sgiliau Cymraeg a sensitifrwydd. Bydd buddsoddi yng ngweithlu'r dyfodol drwy gynllunio strategol a dyrannu adnoddau'n ymatebol mewn addysg cyn-gofrestru yn sicrhau'r capasiti i ddarparu'r gwasanaethau lle mae fwyaf eu hangen' (tud 24).

Ategir yr uchelgais hwn yn yr *Asesiad Effaith o'r Gymraeg o fewn Cymru Iachach (2018)* sy'n datgan fod gan AaGIC, mewn cydweithrediad â Gofal Cymdeithasol Cymru, rôl ganolog o ran gosod y cyfeiriad strategol:

'Wrth ddatblygu'r strategaeth hon (Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol), bydd angen i AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru ystyried yn fanwl sut y bydd darparwyr gwasanaethau'n gallu cyrraedd Safonau'r Gymraeg, ac uchelgeisiau Cymraeg 2050 trwy wneud y defnydd gorau o gyflogeion Cymraeg yn eu gweithlu presennol, darparu cyfleoedd i'r holl staff ddysgu Cymraeg / defnyddio'r Gymraeg, a thrwy recriwtio rhagor o ymarferwyr â sgiliau iaith Gymraeg yn y dyfodol.' (tud 4).

Wrth gydnabod y ffordd y caiff addysg gofal iechyd ei chomisiynu ar hyn o bryd yng Nghymru, Mae *Mwy na Geiriau (LLC, 2016)* yn dadlau:

'byddai partneriaeth gryfach rhwng rhanddeiliaid allweddol yn ei gwneud yn bosibl datblygu fframwaith mwy cydlynol er mwyn gwella'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir ar draws y sector. Mae sefydlu datblygiad sgiliau Cymraeg fel rhan o gynllunio strategol y gweithlu ac addysg ar gyfer gweithwyr Iechyd proffesiynol yn gam sylfaenol yn y cyfeiriad hwn. Bydd y cynlluniau tymor canol integredig a gynhyrchir gan y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau yn ystyried eu gofynion presennol a'u hanghenion i'r dyfodol ar gyfer gweithlu sy'n siarad Cymraeg fel sail i'r broses gomisiynu addysgol.' (tud 24).

Ymhellach, honnir:

‘y dylai amodau cytundebau gyda Sefydliadau Addysg Uwch ddangos ymgysylltiad â byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ar gynllunio gweithlu ar gyfer darparu gwasanaethau Cymraeg yn lleol. Dylai’r rhain gynnwys darpariaeth addysgol ar ymwybyddiaeth iaith a’r cynnig rhagweithiol, recriwtio siaradwyr Cymraeg i ateb anghenion penodol y gweithlu, ac ymrwymiad i ymestyn addysg gyfrwng-Cymraeg / dwyieithog mewn paratoad ar gyfer ymarfer mewn amgylchedd dwyieithog. Gall pobl wedyn fod yn dawel eu meddwl bod cyrff addysg a chyrff proffesiynol yn sefydlu anghenion Cymraeg y boblogaeth yn y gwaith o gynllunio a darparu’r cwricwlwm.’ (tud 25)

Nid oes unrhyw amheuaeth, felly, fod angen gosod gofynion penodol wrth wraidd y broses comisiynu rhaglenni cofrestru proffesiynol yng Nghymru er mwyn cynllunio gweithlu’r dyfodol, gan gynnwys:

- Cyflwyno cwtâu / targedau ar gyfer recriwtio nifer digonol o fyfyrwyr sy’n siarad Cymraeg ar sail anghenion iaith Gymraeg y boblogaeth
- Sicrhau bod yr addysg ar gael trwy’r Gymraeg / yn ddwyieithog
- Sicrhau bod cyfleodd ar gael i fyfyrwyr ddysgu a defnyddio’r Gymraeg ar lefel broffesiynol
- Sicrhau bod yr addysg yn paratoi’r holl fyfyrwyr i ymarfer yn effeithiol mewn sefyllfa ddwyieithog gan roi’r ‘cynnig rhagweithiol’ ar waith.

Ategir gofynion o’r fath yn Adroddiad Comisiynydd y Gymraeg (2019) ar *Hyfforddiant Gofal Sylfaenol a’r Gymraeg* lle y cyflwynir cyfres o argymhellion strategol ar gyfer hyfforddi’r gweithlu gofal sylfaenol ond sydd hefyd yn berthnasol i’r sector iechyd a gofal cyfan.

Mae rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn hanfodol o ran cefnogi’r datblygiadau hyn. Gydag iechyd a gofal yn flaenoriaeth i’w cynllun academaidd (CCC, 2017), ceir buddsoddiad sylweddol yn y disgyblaethau hyn o fewn y sector addysg uwch ac, yn fwy diweddar, addysg bellach; ac mae ysgoloriaethau’r Coleg yn hwb i ddenu myfyrwyr i astudio trwy’r Gymraeg. Er hynny, ac ystyried maint y galw am weithwyr a gofalcwyr cymdeithasol cyfrwng Cymraeg, bratiog yw’r hyfforddiant dwyieithog cyfredol ar draws Cymru a bregus yw sefyllfa rhai rhaglenni o’r fath. Mae diffyg cynllunio gweithlu’r colegau a’r prifysgolion yn peryglu dyfodol y ddarpariaeth ac mae angen mwy o waith o ran argyhoeddi myfyrwyr am fanteision astudio trwy’r Gymraeg.

O ran datblygu’r gweithlu cyfredol, mae gwaith yn mynd rhagddi mewn rhai sefydliadau er mwyn cynyddu’r hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, dysgu Cymraeg, a magu hyder i ddefnyddio’r Gymraeg, yn unol â strategaeth *Mwy na geiriau* (LLC, 2016) a Safonau’r Gymraeg. Serch hynny, ac ystyried y pwysau gwaith cynyddol o fewn y gweithlu, mae’n anodd rhyddhau staff i fynychu cyrsiau. Mae angen rhoi sylw ar frys, felly, i’r modd y gellir cynyddu’r datblygiadau, gan wneud y fath hyfforddiant yn orfodol i bawb.

Dengys felly, er gwaethaf buddsoddiad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, cyfraniad y sefydliadau addysg uwch, a gwaith diflino swyddogion iaith ar hyd a lled GIG Cymru, nid yw’r trefniadau presennol yn ddigonol ar gyfer ‘sefydlu anghenion Cymraeg y boblogaeth yn y

gwaith o gynllunio a darparu'r cwricwlwm' (LLC, 2016, tud 25). Mae'r *Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol* yn cynnig cyfle unigryw ac euraidd i AaGIC, mewn cydweithrediad â Gofal Cymdeithasol Cymru, wyrdroi sefyllfa o'r fath wrth osod cyfeiriad strategol clir, yn unol â'u 'rôl arweiniol ym maes addysgu, hyfforddi, datblygu, ac adeiladu'r gweithlu' er mwyn 'diwallu anghenion y GIG a phobl Cymru, nawr ac yn y dyfodol.' (AaGIC, 2018).

**I gloi, ac ystyried uchelgais y *Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol* i ddatblygu gweithlu a fydd yn 'diwallu anghenion pobl Cymru' ac 'adlewyrchu iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol y boblogaeth', mae angen gosod y Gymraeg wrth wraidd y broses comisiynu rhaglenni cofrestru proffesiynol er mwyn paratoi gweithlu dwyieithog syn gymwys i roi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith.**

#### **19. Ydy'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg a'r camau gweithredu posibl yn ddigonol?**

**Nac ydynt.** Maent yn anwybyddu pwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal ac yn di-ystyru hyn wrth baratoi gweithlu sy'n ffit i bwrpas ar gyfer y cyd-destun dwyieithog.

#### **20. Os nad ydyn nhw beth arall hoffech chi ei weld?**

Ar sail yr angen i osod y Gymraeg wrth wraidd y broses comisiynu rhaglenni cofrestru proffesiynol er mwyn paratoi gweithlu sy'n medru'r Gymraeg ac sy'n gymwys i roi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith, rydym yn gryf o'r farn y dylid ychwanegu'r pwyntiau a ganlyn i weledigaeth a blaenoriaethau'r thema hon:

##### **Gweledigaeth:**

- Y Gymraeg wedi'i gosod wrth wraidd y broses comisiynu a darparu rhaglenni cofrestru proffesiynol.
- Nifer digonol o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg wedi'u recriwtio ar raglenni cofrestru proffesiynol ar sail anghenion iaith Gymraeg y boblogaeth.
- Addysg trwy'r Gymraeg / dwyieithog ar gynnydd mewn rhaglenni cofrestru proffesiynol o'r fath.
- Rhaglenni cofrestru proffesiynol yn cynnig cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol.

##### **Blaenoriaethau**

- Cytundebau gyda sefydliadau addysg uwch i ddangos ymgysylltiad â byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ar gynllunio gweithlu ar gyfer darparu gwasanaethau Cymraeg yn lleol.
- AaGIC / Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflwyno cwotâu / targedau ar gyfer recriwtio nifer digonol o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ar raglenni cofrestru proffesiynol ar sail anghenion iaith Gymraeg y boblogaeth.
- AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru i gydweithio'n agos gyda'r Coleg Gymraeg Cenedlaethol a sefydliadau addysg uwch er mwyn hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg / dwyieithog mewn rhaglenni cofrestru proffesiynol.
- Dysgu a defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol i'w ymgorffori mewn rhaglenni cofrestru proffesiynol

## Thema 6: Arweinyddiaeth

### **22. Ydy'r thema hon yn cynorthwyo i drawsnewid y gweithlu er mwyn darparu Cymru Iachach?**

**Nac ydy.** Mae'n anwybyddu pwysigrwydd arweinyddiaeth ar gyfer darparu 'cynnig rhagweithiol' o wasanaethau Cymraeg ac yn di-ystyru hyn wrth gynllunio'r gweithlu.

### **23. Os nad yw – beth sydd ar goll?**

Yn unol â gwerthoedd craidd GIG Cymru, mae *Cymru Iachach (LLC, 2018)* yn gosod 'ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth' (tud 4), gan flaenoriaethu cynllunio ar gyfer darparu 'gwasanaethau iechyd a gofal sydd wedi'u teilwra i anghenion a dewisiadau'r unigolyn, gan gynnwys yn yr iaith a ffefrir...' (tud 17). Roedd yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2018) eisoes wedi cydnabod 'pwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal' ac wedi argymhell 'y dylid ystyried hyn wrth gynllunio'r gweithlu' (tud 21).

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn ei Fframwaith Strategol *Mwy na Geiriau (LLC, 2012, 2016)* yw y bydd siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal sy'n bodloni eu hanghenion fel rhan naturiol o'u gofal, gyda phwyslais cynyddol ar weithredu 'cynnig rhagweithiol' o wasanaethau Cymraeg. Golyga hyn fod angen newid diwylliant ymhlith sefydliadau wrth symud y cyfrifoldeb am sicrhau gwasanaethau addas oddi ar ysgwyddau'r defnyddiwr i'r darparwr. Mae hyn yn gofyn am arweinyddiaeth gref ar bob lefel lle:

'Mae angen dull cyson gan bob haen o bob gwasanaeth i beri newid a gwelliant parhaus. Mae gan uwch aelodau o staff gyfrifoldeb i sefydlu diwylliant cefnogol, fydd yn sicrhau bod gwasanaethau ar gael i siaradwyr Cymraeg drwy gyfeiriad polisi, prosesau recriwtio, cynllunio'r gweithlu a rhaglenni hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus'. (LLC, 2016, tud 20).

Am hynny, mae angen creu strategaeth awenyddiaeth er mwyn arfogi staff i ddatblygu eu hyder, ymrwymiad a'u cymhelliant i roi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith ac i fod yn bencampwyr yr iaith Gymraeg ar gyfer y gweithlu. Nid yw hyn yn gyfyngedig i uwch arweinwyr ac uwch reolwyr. Yn hytrach, gall y rhain fod yn unigolion ar unrhyw lefel o'r sefydliad sy'n fedrus o ran cychwyn, hwyluso a gweithredu newid.

Bydd creu mynediad at adnoddau pwrpasol ar gyfer hyfforddi staff yn gam allweddol. Fel man cychwyn, ceir pecynnau gwybodaeth defnyddiol gan Lywodraeth Cymru (2015):  
<https://gweddill.gov.wales/docs/dhss/publications/150928activeofferhealthcy.pdf>  
<https://gweddill.gov.wales/docs/dhss/publications/150928activeoffersocialservicescy.pdf>  
Ymhellach, ceir deunyddiau uchel eu hansawdd o Ganada, lle mae Consortium national de formation en santé (CNFS) (2012) yn cynnig fframwaith arweiniol, ar sail tystiolaeth, ar gyfer hyfforddi staff ar y 'cynnig rhagweithiol' ynghyd â chyfres o adnoddau pwrpasol:  
<<https://www.reseaudumieuxetre.ca/en/health-service-providers/active-offer-information-kit/active-offer-poster/>>.

I gloi, ac ystyried uchelgais y *Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol* i ddatblygu gweithlu a fydd yn 'diwallu anghenion pobl Cymru' ac 'adlewyrchu iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol y boblogaeth', mae angen datblygu arweinyddiaeth ar draws y sector ar gyfer darparu 'cynnig rhagweithiol' o wasanaethau Cymraeg.

#### **24. Ydy'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg a'r camau gweithredu posibl yn ddigonol?**

**Nac ydynt.** Maent yn anwybyddu pwysigrwydd arweinyddiaeth ar gyfer darparu 'cynnig rhagweithiol' o wasanaethau Cymraeg ac yn di-ystyru hyn wrth gynllunio'r gweithlu.

#### **25. Os nad ydyn nhw beth arall hoffech chi ei weld?**

Ar sail yr angen i ddatblygu arweinyddiaeth ar draws y sector ar gyfer darparu 'cynnig rhagweithiol' o wasanaethau Cymraeg, rydym yn gryf o'r farn y dylid ychwanegu'r pwyntiau a ganlyn i weledigaeth a blaenoriaethau'r thema hon:

##### **Gweledigaeth:**

- Arweinwyr tosturiol ar draws y sector sy'n cynorthwyo ac ysbrydoli'r gweithlu ar gyfer rhoi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith.
- Mynediad at adnoddau a hyfforddiant o'r safon uchaf ar gyfer arwain y gweithlu ar weithredu'r 'cynnig rhagweithiol'.

##### **Blaenoriaethau**

- Datblygu ystod o adnoddau pwrpasol ar gyfer arwain y gweithlu ar wireddu'r 'cynnig rhagweithiol' a'u gosod ar borth arweinyddiaeth ddigidol.
- Ymgorffori ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a'r 'cynnig rhagweithiol' i raglenni a hyfforddiant arweinyddiaeth.
- Sefydlu pencampwyr yr iaith Gymraeg fel arweinwyr clinigol ar draws y sector.

#### **Thema 7: Cyflenwad a ffurf y gweithlu**

#### **26. Ydy'r thema hon yn cynorthwyo i drawsnewid y gweithlu er mwyn darparu Cymru lachach?**

**Nac ydy.** Mae'n anwybyddu pwysigrwydd y Gymraeg a'r 'cynnig rhagweithiol' mewn gofal gan ddiystyru hyn wrth gynllunio'r gweithlu.

#### **27. Os nad yw – beth sydd ar goll?**

Yn unol â gwerthoedd craidd GIG Cymru, mae *Cymru lachach (LLC, 2018)* yn gosod 'ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth' (tud 4), gan flaenoriaethu cynllunio ar gyfer darparu 'gwasanaethau iechyd a gofal sydd wedi'u teilwra i anghenion a dewisiadau'r unigolyn, gan gynnwys yn yr iaith a ffefrir...' (tud 17). Roedd yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2018) eisoes wedi cydnabod 'pwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal' ac wedi argymhell 'y dylid ystyried hyn wrth gynllunio'r gweithlu' (tud 21).



Ategir yr un amcanion yn yr *Asesiad Effaith o'r Gymraeg o fewn Cymru Iachach* (2018) sy'n datgan fod gan AaGIC, mewn cydweithrediad â Gofal Cymdeithasol Cymru, rol ganolog o ran gosod y cyfeiriad strategol:

'Wrth ddatblygu'r strategaeth hon (Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol), bydd angen i AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru ystyried yn fanwl sut y bydd darparwyr gwasanaethau'n gallu cyrraedd Safonau'r Gymraeg, ac uchelgeisiau Cymraeg 2050 trwy wneud y defnydd gorau o gyflogeion Cymraeg yn eu gweithlu presennol, darparu cyfleoedd i'r holl staff ddysgu Cymraeg / defnyddio'r Gymraeg, a thrwy recriwtio rhagor o ymarferwyr â sgiliau iaith Gymraeg yn y dyfodol.' (tud 4).

Am hynny, wrth uwchgyfeirio'r newid yn narpariaeth y gofal o'r ysbyty i ofal sylfaenol ac i leoliadau cymunedol, bydd angen rhoi sylw penodol i'r Gymraeg wrth greu rolau newydd a modelu'r gweithlu er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o siaradwyr Cymraeg fydd â'r gallu i roi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith.

**I gloi, ac ystyried uchelgais y *Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol* i ddatblygu gweithlu a fydd yn 'diwallu anghenion pobl Cymru' ac 'adlewyrchu iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol y boblogaeth', mae angen rhoi sylw penodol i'r Gymraeg wrth greu rolau newydd a modelu'r gweithlu er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o siaradwyr Cymraeg ar gyfer darparu'r 'cynnig rhagweithiol'.**

## **28. Ydy'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg a'r camau gweithredu posibl yn ddigonol?**

**Nac ydynt.** Maent yn anwybyddu pwysigrwydd y Gymraeg a'r 'cynnig rhagweithiol' mewn gofal gan ddiystyru hyn wrth gynllunio a modelu'r gweithlu.

## **29. Os nad ydyn nhw, beth arall hoffech chi ei weld?**

Ar sail yr angen i gynllunio a modelu gweithlu dwyieithog sy'n gymwys i roi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith, rydym yn gryf o'r farn y dylid ychwanegu'r pwyntiau a ganlyn i weledigaeth a blaenoriaethau'r thema hon:

### **Gweledigaeth:**

- Y gweithlu wedi'i gynllunio mewn modd strategol ar sail anghenion iaith Gymraeg y boblogaeth.
- Sgiliau Cymraeg yn cael eu cydnabod wrth gynllunio a modelu'r gweithlu.
- Gweithlu sy'n medru'r Gymraeg ac sy'n gymwys i roi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith.

### **Blaenoriaethau:**

- Sefydlu dull o adnabod a chofnodi anghenion iaith Gymraeg y boblogaeth.
- Targedu meysydd allweddol lle mae prinder gweithlu sy'n siarad Cymraeg; ac anelu at lenwi'r bylchau.
- Datblygu cynlluniau gweithlu manwl ar sail anghenion iaith Gymraeg y boblogaeth.
- Cydnabod yn ffurfiol / ariannol sgiliau Cymraeg y gweithlu

## laith

**Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:**

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

### **Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi?**

Ac ystyried uchelgais y *Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol* i ddatblygu gweithlu a fydd yn 'diwallu anghenion pobl Cymru' ac 'adlewyrchu iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol y boblogaeth' (tud 5), disgwylir y byddai ymrwymiad o'r fath wedi'i ymgorffori'n gryf o fewn y themâu a'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, **ni chaiff y Gymraeg unrhyw sylw pellach nag unrhyw gydnabyddiaeth o fewn y strategaeth arfaethedig**. Mae hyn yn sarhad ar yr iaith ac yn destun pryder enfawr, yn enwedig ac ystyried cyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru. Wrth amddifadu'r iaith o'r strategaeth, nid oes unrhyw amheuaeth ei fod yn **trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac yn lleihau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**.

Ac ystyried mai prin iawn fu'r ymdrechion hyd yma i gynllunio'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol mewn modd strategol ar sail anghenion iaith Gymraeg y boblogaeth, mae'r strategaeth hon yn cynnig cyfle unigryw ac euraidd i wyrdroi sefyllfa o'r fath, yn unol â chyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru. Fel y dywed Comisiynydd yr iaith Gymraeg (2019, 1.5) yng nghyd-destun gofal sylfaenol,

'...anghenion y claf yng Nghymru ddylai yrru'r agenda hyfforddi ar gyfer y sector gofal sylfaenol, a dylid sicrhau dilyniant yn y gadwyn o ran cynllunio gweithlu pwrpasol a darparu'r addysg hyfforddiant i'w paratoi. Fel mae ymholiad y Comisiynydd yn ei bwysleisio, mae'r iaith Gymraeg yn un ffactor allweddol y dylid ei ystyried wrth ddatblygu strategaeth i sicrhau bod gweithlu gofal sylfaenol y dyfodol yn diwallu anghenion y boblogaeth yng Nghymru.'

### **Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?**

Yn unol â Fframwaith Strategol, *Mwy na geiriau* (LLC, 2016),

'... mae angen gwneud mwy i wneud y defnydd gorau o sgiliau Cymraeg presennol y gweithlu a buddsoddi yng ngweithlu'r dyfodol a throi egwyddor y Cynnig Rhagweithiol yn realiti.' (2.3). 'Er mwyn i'r gweithlu iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol allu cyflawni'r Cynnig Rhagweithiol, mae'n hanfodol eu bod yn adlewyrchu lefelau digonol o sgiliau Cymraeg a sensitifrwydd. Bydd buddsoddi yng ngweithlu'r dyfodol drwy gynllunio strategol ... yn sicrhau'r capasiti i ddarparu'r gwasanaethau lle mae fwyaf eu hangen.' (3.21).

Yn unol â chyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru, mae angen i'r strategaeth arfaethedig ddatgan yn glir y modd y gellir cynllunio a datblygu gweithlu er mwyn gwella ansawdd a hygyrchedd darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol trwy'r Gymraeg ar gyfer trigolion Cymru. Gellir cyflawni hyn drwy osod y weledigaeth a'r blaenoriaethau a ganlyn fel sail ar gyfer cyfres o gamau gweithredu:

## Gweledigaeth

- Y gweithlu wedi'i gynllunio mewn modd strategol ar sail anghenion iaith Gymraeg y boblogaeth.
- Sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi fel sgiliau proffesiynol.
- Gweithlu dwyieithog sy'n manteisio ar systemau gwybodaeth cynhwysfawr a'r dechnoleg ddigidol ddiweddaraf trwy'r Gymraeg.
- Modelau newydd ar gyfer darparu iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u cynllunio ar sail anghenion iaith Gymraeg y boblogaeth.
- Prosesau denu a recriwtio gweithlu sy'n medru'r Gymraeg ac a gynllunnir ar sail gofynion iaith Gymraeg y boblogaeth.
- Recriwtio gweithlu o Gymru sy'n medru'r Gymraeg yn cynyddu, gan leihau'r angen i recriwtio o dramor.
- Y Gymraeg wedi'i gosod wrth wraidd y broses comisiynu a darparu rhaglenni cofrestru proffesiynol.
- Nifer digonol o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg wedi'u recriwtio ar raglenni cofrestru proffesiynol ar sail anghenion iaith Gymraeg y boblogaeth.
- Addysg trwy'r Gymraeg / dwyieithog ar gynydd mewn rhaglenni cofrestru proffesiynol.
- Rhaglenni cofrestru proffesiynol yn cynnig cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol.
- Arweinwyr tosturiol ar draws y sector sy'n cynorthwyo ac ysbrydoli'r gweithlu ar gyfer rhoi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith.

## Blaenoriaethau

- Hwyluso trefniadau ar gyfer cofnodi a throsglwyddo dewis / angen iaith Gymraeg defnyddwyr gwasanaeth.
- Archwilio a dynodi sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu.
- Adnabod y bylchau o ran sgiliau iaith Gymraeg ar draws y gweithlu.
- Marchnata negeseuon am fanteision sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithlu a mynediad agored i ddysgu Cymraeg.
- Sefydlu ymgyrchoedd recriwtio penodol a dargedir lle y ceir prinder o siaradwyr Cymraeg.
- Targedu hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer y gweithlu a lledaenu adnoddau iaith Gymraeg i gefnogi dysgu a defnydd yr iaith.
- Cyflwyno systemau er mwyn cydnabod yn ffurfiol / ariannol sgiliau Cymraeg y gweithlu.
- Cydnabod a gwobrwyo dysgwyr y Gymraeg o fewn y gweithlu.
- Galluogi mynediad y gweithlu at y dechnoleg ddiweddaraf sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithlu.
- AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflwyno cwotâu / targedau ar gyfer recriwtio nifer digonol o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ar raglenni cofrestru proffesiynol ar sail anghenion iaith Gymraeg y boblogaeth.

- AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru i gydweithio'n agos gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a sefydliadau addysg uwch er mwyn hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg / dwyieithog mewn rhaglenni proffesiynol er mwyn paratoi ymarferwyr ar gyfer y sefyllfa ddwyieithog.
- Hwyluso cydweithio rhwng darparwyr addysg er mwyn manteisio ar ddulliau dysgu sy'n gwneud defnydd o dechnoleg ddigidol, megis, e.e. dysgu o bell ac ar-lein, er mwyn hyrwyddo dysgu trwy'r Gymraeg ar draws Cymru.
- Dysgu a defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol i'w ymgorffori mewn rhaglenni cofrestru proffesiynol
- Ymgorffori ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a'r 'cynnig rhagweithiol' i raglenni a hyfforddiant arweinyddiaeth.
- Datblygu ystod o adnoddau pwrpasol ar gyfer arwain y gweithlu ar wireddu'r 'cynnig rhagweithiol' a'u gosod ar borth arweinyddiaeth ddigidol.
- Sefydlu pencampwyr yr iaith Gymraeg fel arweinwyr clinigol ar draws y sector.

### **Sylwadau ategol**

Rydym yn codi pryderon am sawl agwedd ar yr ymgyngoriad hwn, fel a ganlyn:

#### **Pryderon penodol am gomisiynu corff y tu allan i Gymru i lunio'r strategaeth**

- Ac ystyried fod angen datblygu strategaeth gweithlu sy'n benodol seiliedig ar anghenion Cymru ac sy'n cydnabod y cyd-destun a chyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol, rydym yn bryderus mai corff y tu allan i Gymru a gomisiynwyd i gwblhau'r gwaith.
- Pe byddai corff sydd wedi'i leoli yng Nghymru wedi derbyn y comisiwn, rydym o'r farn y byddai gwell dealltwriaeth ganddynt o'r cyd-destun deddfwriaethol / polisi / ymchwil yng Nghymru; ac y byddai gofynion y Gymraeg wedi eu hymgorffori yn y strategaeth.

#### **Pryderon penodol am y diffyg sylw at gyfrifoldebau AaGIC wrth gomisiynu'r gweithlu iechyd**

- Rydym yn bryderus o weld cyn lleied o sylw yn y strategaeth hon at rôl flaenllaw AaGIC wrth gomisiynu'r gweithlu iechyd.
- Mae diffygion o'r fath yn arwain at golli cyfle unigryw ac euraidd i osod cyfeiriad strategol AaGIC ynghylch ei rôl arweiniol ym maes comisiynu, addysgu, hyfforddi, datblygu, ac adeiladu gweithlu dwyieithog er mwyn diwallu anghenion iaith Gymraeg pobl Cymru.

#### **Pryderon penodol am y diffyg cydbwysedd rhwng yr heriau digidol a heriau'r Gymraeg**

- Rydym yn bryderus bod y strategaeth yn blaenoriaethu'r heriau digidol heb gyfeirio at y Gymraeg yn yr un modd.
- Mae angen esbonio bod strategaeth a newid mawr ar y gweill gyda'r twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg, deddfwriaeth a strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru (2017).

- Mae angen blaenoriaethu'r heriau ieithyddol hyn wrth ddatblygu'r strategaeth gweithlu; a phwysleisio mai mater o strategaeth yw iaith yn hytrach na mater i fanylion cynllunio gweithredu.

### **Pryderon penodol am anwybyddu anghenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru ) 2015**

- Rydym yn bryderus bod y strategaeth wedi anwybyddu anghenion *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* sy'n pwysleisio'r cyfrifoldebau statudol ar ddarparwyr gwasanaeth i gyfrannu tuag at Gymru 'â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.
- Pe byddai'r strategaeth hon wedi ei seilio ar fframwaith y ddeddf, byddai'n anochel y byddai'r Gymraeg wedi ei phrif-ffrydio'r ar draws y ddogfen.

### **Pryderon cyffredinol am y diffyg sylw at y Gymraeg**

Rydym yn cydnabod y cysylltiad agos rhwng y strategaeth hon â Cymru Iachach (LLC, 2018) ond rydym yn gofidio'n fawr am y diffyg sylw at y Gymraeg. Ac ystyried yr angen am weithlu sy'n ffit i bwrpas ar gyfer y cyd-destun dwyieithog yng Nghymru, mae'n holl bwysig bod nifer digonol o siaradwyr Cymraeg yn cael eu recriwtio a'u hyfforddi ar gyfer y disgyblaethau iechyd a gofal, a bod y rhaglenni proffesiynol ar gael trwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog. Am hynny, mae'n rhaid i *Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymru* roi sylw teilwng i'r Gymraeg; a chynllunio ar gyfer ei defnydd, yn unol â *Mwy na Geiriau* (LLC, 2016) a strategaeth *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr* (LLC, 2017). Mae'r strategaeth arfaethedig yn hollol annigonol am y rhesymau a ganlyn:

- Nid yw'n gosod lle teilwng i'r Gymraeg o fewn y strategaeth.
- Nid yw'n blaenoriaethu'r angen i sefydlu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol trwy'r Gymraeg yng Nghymru.
- Nid yw'n pwysleisio'r cyfrifoldebau statudol ar ddarparwyr gwasanaeth i ystyried nodweddion, diwylliant a chredoau cleifion a chleientiaid (gan gynnwys, e.e.iaith) (*Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*).
- Nid yw'n pwysleisio'r cyfrifoldebau statudol ar ddarparwyr gwasanaeth i gyfrannu tuag at Gymru lle mae'r 'Gymraeg yn ffynnu' a 'Chymru iachach' (*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*).
- Nid yw'n adlewyrchu'r potensial i wneud cyfraniad sylweddol i nod *Cymraeg 2050* (LLC, 2017).
- Nid yw'n cydnabod canfyddiadau'r *Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru* (2018) sy'n nodi pwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal a'r angen i ystyried hyn wrth gynllunio'r gweithlu.
- Nid yw'n ystyried y cynllunio system gyfannol sy'n ofynnol o fewn Fframwaith Strategol *Mwy na Geiriau* (LLC, 2016) ar gyfer cynllunio gweithlu dwyieithog.
- Nid yw'n cydnabod cyfraniad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg broffesiynol a chynllunio gweithlu dwyieithog.
- Nid yw'n cynnig arweiniad ar gyfer y byrddau iechyd o ran cynllunio a darparu gwasanaethau iechyd trwy'r Gymraeg sy'n cydymffurfio â'r *Safonau Iaith*.

## **Pryderon am y diffyg sylw a roddir i gyd-destun y Gymraeg o fewn y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru**

Yn unol â gwerthoedd craidd GIG Cymru, mae *Cymru Iachach (LLC, 2018)* yn gosod 'ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth' (tud 4), gan flaenoriaethu cynllunio ar gyfer darparu 'gwasanaethau iechyd a gofal sydd wedi'u teilwra i anghenion a dewisiadau'r unigolyn, gan gynnwys yn yr iaith a ffefrir...' (tud 17). Mae hyn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2018) sy'n cydnabod 'pwsigrwydd y Gymraeg mewn gofal' gan argymhell 'y dylid ystyried hyn wrth gynllunio'r gweithlu' (tud 21).

Canolbwynt gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yw gofalu am bobl fel unigolion a gosod y defnyddiwr wrth wraidd y gofal hwnnw. Yng nghyd-destun dwyieithog Cymru, dim ond drwy gyfrwng y Gymraeg y gall llawer o bobl egluro'n effeithiol beth yw eu hanghenion gofal, yn enwedig pan fyddant yn sâl neu mewn gofid. Bryd hynny, mae gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn aml yn fwy na mater o ddewis yn unig - mae'n fater o angen, yn enwedig i rheini sydd fwyaf bregus o ran eu gallu a'u hyder i gyfathrebu drwy'r Saesneg (fel yr henoed, pobl â dementia neu sydd wedi cael strôc, neu blant bach nad ydynt yn siarad ond Cymraeg (Misell, 2000; Madoc-Jones, 2004; Prys, 2010; Iaith, 2012; Owen a Morris, 2012; Comisiynydd y Gymraeg, 2014; Alzheimer's Society Cymru / Comisiynydd y Gymraeg, 2018; Hughes, 2018). Mae'n fater o angen hefyd i'r siaradwyr Cymraeg hynny sy'n byw eu bywydau trwy'r Gymraeg ac yn teimlo'n fwy cyfforddus yn mynegi eu hunain trwy eu hiaith gynhenid. Am hynny, mae darparu gwasanaethau dwyieithog yn allweddol ar gyfer sicrhau diogelwch ac ansawdd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth, fel y dengys y dystiolaeth ryngwladol ehangach (Jacobs et al., 2006; Bowen, 2015).

Yn sgil yr egwyddorion hyn, gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn ei Fframwaith Strategol *Mwy na Geiriau (LLC, 2012, 2016)* yw y bydd siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal sy'n bodloni eu hanghenion fel rhan naturiol o'u gofal, gyda phwyslais cynyddol ar weithredu 'cynnig rhagweithiol' o wasanaethau Cymraeg. Golyga hyn fod angen newid diwylliant ymhlith sefydliadau wrth symud y cyfrifoldeb am sicrhau gwasanaethau addas oddi ar ysgwyddau'r defnyddiwr i'r darparwr. Wrth gyflwyno Safonau'r Gymraeg i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, daw'r amcanion hyn yn ofynion statudol, gyda phwyslais ar baratoi gweithlu yng Nghymru sy'n ffit i bwrpas ar gyfer y gyd-destun dwyieithog, ac sydd â'r sgiliau iaith ac ymwybyddiaeth iaith briodol. Mae'n anochel, felly, bod *Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymru* yn rhoi sylw penodol i'r gofynion hyn, yn unol â chyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru:

'... mae angen gwneud mwy i wneud y defnydd gorau o sgiliau Cymraeg presennol y gweithlu a buddsoddi yng ngweithlu'r dyfodol a throi egwyddor y Cynnig Rhagweithiol yn realiti.' (LLC, 2016, 2.3)

'Er mwyn i'r gweithlu iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol allu cyflawni'r Cynnig Rhagweithiol, mae'n hanfodol eu bod yn adlewyrchu lefelau digonol o sgiliau Cymraeg a sensitifrwydd. Bydd buddsoddi yng ngweithlu'r dyfodol drwy gynllunio strategol ... yn sicrhau'r capasiti i ddarparu'r gwasanaethau lle mae fwyaf eu hangen.' (LLC, 2016, 3.21).

## **Pryderon am y diffyg sylw a roddir i'r cyd-destun polisi a deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg**

Rydym o'r farn mai mater o strategaeth yw iaith yn hytrach na mater i fanylion cynllunio gweithredu. Ac ystyried arwyddocâd pellgyrhaeddol y strategaeth hon, mae angen gosod y cyd-destun polisi a deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg, gan gyfeirio at y canlynol:

- *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011* trwy'r Safonau Iaith Gymraeg a osodir arnynt gan Gomisiynydd y Gymraeg - gosod cyfrifoldeb statudol ar gyrff i sicrhau neu weithio tuag at **sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg**
- *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* - cryfhau trefniadau cydweithio aml-asiantaeth yn y sector iechyd a gofal trwy osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i 'wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad gyda'u partneriaid perthnasol ac eraill mewn perthynas ag oedolion sydd ag anghenion am ofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Gosod dyletswydd holl gyffredinol ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a phartneriaid eraill i **'roi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys, e.e. iaith).**
- *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* - cyfrifoldeb statudol trosfwaol ychwanegol ar Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre i gyfrannu tuag at Gymru lle mae'r **'Gymraeg yn ffynnu'** a 'Chymru iachach'.
- *Symud Cymru Ymlaen: Y Rhaglen Lywodraethu 2016-2021 a Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol* (LLC, 2017) - gosod cyfeiriad Llywodraeth Cymru ar gyfer gwreiddio amcanion *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* o ran 'darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon' a 'datblygu cymunedau, **diwylliant ac iaith** sy'n gydnerth'.
- *Fframwaith Strategol Mwy na geiriau* (LLC, 2012) - **Siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau sy'n bodloni eu hanghenion ieithyddol fel rhan naturiol o'u gofal.** *Fframwaith Strategol Olynol* (LLC, 2016) yn annog dull integredig, system gyfannol o ddarparu iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol er mwyn **darparu 'cynnig rhagweithiol' o wasanaethau cyfrwng Gymraeg.**
- *Strategaeth Gymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (LLC, 2017) - cydnabod yr her o **ddarparu'r 'cynnig rhagweithiol** o ystyried bod bron i 200,000 o staff gan y GIG, gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau gyda'i gilydd a bod cleifion yn cysylltu gyda'r GIG yn unig 20 miliwn o weithiau'r flwyddyn. Er hynny, mae'r nifer o staff a'r lefel uchel o ryngweithio gyda'r cyhoedd yn golygu bod potensial uchel i'r sector gwneud cyfraniad gwerthfawr i nod *Cymraeg 2050*.
- *Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol* (LLC, 2018) - ymateb i argymhellion yr *Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru* (LLC, 2018) a gosod y cyfeiriad ar gyfer gwedd newid darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol dros y tymor hir. "Mae ailbennu gogwydd gwasanaethau at fodel sy'n fwy cymunedol, yn fwy cydgyssylltiedig ac yn canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn yn rhoi cyfle i fyrdau iechyd a sefydliadau gofal cymdeithasol aillystyried y ffyrdd y maent yn **diwallu anghenion eu poblogaethau o ran y Gymraeg, a chymryd camau i sefydlu a hybu defnydd o'r Gymraeg** trwy fodolau gofal newydd y byddant i gyd yn eu datblygu ar lefel ardal leol yn y dyfodol'.

- *Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-2022* - datgan bod **anghenion siaradwyr Cymraeg sy'n byw gyda dementia yn un o'r 'meysydd i'w hystyried ar draws y llwybr gofal'**

**Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y strategaeth arfaethedig:**

**Fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i**

**ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

**Fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Ar sail ein hadborth manwl, rydym yn cyflwyno'r **argymhellion** a ganlyn:

- Yn unol â chyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru, mae angen i'r strategaeth ddatgan yn glir y modd y gellir cynllunio a datblygu'r gweithlu er mwyn gwella ansawdd a hygyrchedd darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol trwy'r Gymraeg ar gyfer trigolion Cymru.
- Er mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am osod y chyfeiriad strategol, AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru sydd â chyfrifoldeb penodol dros waith rheoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol, cynllunio a datblygu'r gweithlu, a gwella gwasanaethau gofal yng Nghymru. Am hynny, mae disgwyl i'r strategaeth adlewyrchu arweiniad cryf ar y Gymraeg ym mhob agwedd o'r gwaith, gan dynnu sylw penodol at ofynion *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.
- Mae angen sefydlu sylfaen data dibynadwy ynghylch gallu'r gweithlu yn y Gymraeg a'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg sy'n cyrchu'r gwasanaethau hynny.
- Yn seiliedig ar hyn, mae angen adnabod y bylchau er mwyn targedu ymgyrchoedd recriwtio ar gyfer denu siaradwyr Cymraeg i wasanaethu'r gweithlu cyfredol.
- Yn yr un modd, wrth gomisiynu llefydd ar raglenni cofrestru proffesiynol, mae angen cyflwyno cwotâu / targedau ar gyfer recriwtio nifer digonol o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ar gyfer gweithlu'r dyfodol.
- Mae angen cydweithio pellach rhwng y comisiynwyr a'r darparwyr addysg broffesiynol (gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol) i sicrhau fod rhaglenni proffesiynol ar gael trwy'r Gymraeg ar draws y disgyblaethau er mwyn sefydlu'r sgiliau iaith angenrheidiol ar gyfer ymarfer mewn sefyllfa ddwyieithog a rhoi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith.
- Yn unol â chyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru, mae angen blaenoriaethu sgiliau ieithyddol y gweithlu ochr yn ochr â'r sgiliau digidol a darparu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.
- Ac ystyried y pwyslais cynyddol ar ofal integredig, mae angen cynllunio modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol ar sail anghenion iaith Gymraeg y boblogaeth.
- Disgwylir y bydd angen thema benodol ar y Gymraeg o fewn y strategaeth er mwyn gweithredu'r argymhellion hyn.
- Disgwylir, yn ogystal, y bydd angen ymgorffori elfennau o'r argymhellion i mewn i themâu eraill, fel y bo'n briodol.